# Ymddiriedolaeth Natur Gwent Wildlife Trust

## Adolygiad Blynyddol 2021/22



Mae ein gweledigaeth ar gyfer pobl agos at natur mewn tirwedd sydd â chyfoeth o fywyd gwyllt








# Sefyllfa Byd Natur

Yn yr haf, wrth i Lywodraeth Cymru ddatgan argyfwng natur, fe wnaethom gyhoeddi Adroddiad Cyflwr Byd Natur Gwent Fwyaf. Mae'n adrodd straeon 100 o rywogaethau, sampl gynrychioliadol o fywyd gwyllt Gwent. Darllenwch yr adroddiad llawn ar ein gwefan ni.

*"Mae'n adroddiad y mae angen gweithredu yn ei gylch, nid ei roi ar silff, a phan gaiff ei adolygu yn y dyfodol, mae angen arwyddion o adferiad."* *Andy Karran, Rheolwr Tystiolaeth YNG a luniodd yr adroddiad ar y cyd.*



PHOTO CREDITS: TERRY WHITTAKER/2020VISION, DAVID TIPLING/2020VISION, TOM MARSHALL





**Croeso i'n Hadolygiad Blynyddol.** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wrth i ni ddod allan o'r cyfyngiadau symud, rydyn ni wedi croesawu staff, gwirfoddolwyr, aelodau, cefnogwyr ac ymwelwyr yn ôl i'n swyddfeydd a'n gwarchodfeydd natur i barhau, dathlu, a mwynhau effeithiau ein gwaith pwysig.

Eleni fe wnaethom ddechrau gweithredu ein strategaeth newydd, gan ganolbwyntio ar feysydd Adfer Natur a Datrysiadau Seiliedig ar Natur.

Wrth gynorthwyo gydag Adferiad Byd Natur, cawsom gefnogaeth rhai cyfranwyr hael iawn a roddodd dir i ni i greu gwarchodfa natur newydd yn Drenewydd Gelli-farch, a mwy na dyblu maint Perllan Kitty. Llwyddwyd i sicrhau £550,000 i gyflwyno ein rhaglen fwyaf erioed o welliannau seilwaith ar draws y gwarchodfeydd natur fel ein bod yn gallu sicrhau'r budd mwyaf posibl i fywyd gwyllt. Hefyd, fe wnaethom gwblhau rhaglen waith a fu'n weithredol dros sawl blwyddyn yn arolygu ac yn cynghori ar reoli Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol ledled Gwent, gan sicrhau bod y cerrig camu hanfodol hyn ar gyfer byd natur yn cael eu rheoli yn y ffordd orau, a'r perchnogion tir preifat hael sy'n geidwaid y safleoedd hyn yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

Mae'r tîm Datrysiadau Seiliedig ar Natur wedi cael llwyddiant sylweddol, gyda'u rhaglen Iechyd Gwyllt yn dyblu mewn maint i ymgysylltu ac ysbrydoli mwy o bobl i elwa o fywyd gwyllt, gan ddangos i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a phobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau bod llefydd gwyrdd hygyrch a bioamrywiol yn hanfodol i lesiant cenedlaethau'r dyfodol o bobl a bywyd gwyllt. Parhaodd ein rhaglen Sefyll Dros Natur Cymru i ymgysylltu, addysgu, ysbrydoli, a chael eu hysbrydoli gan bobl ifanc sy'n cymryd camau i liniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Y tu ôl i'r llenni mae timau codi arian, cyfathrebu, cyllid a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio'n ddiflino i roi systemau AD, Cyllid, TG, Codi Arian a Rheoli Data newydd ar waith, fel ein bod yn gallu gweithio'n fwy effeithlon, a chyfathrebu ein gwaith yn fwy effeithiol. Un elfen allweddol o'r gwaith hwn yw ein hymdrech i sicrhau arfer gorau mewn meysydd allweddol gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a sgiliau iaith Gymraeg.

Yn ogystal â'r camau hyn a gymerwyd yn uniongyrchol gan staff a gwirfoddolwyr YNG, rydym hefyd yn hynod gyffrous ac yn falch o weld yr holl weithredu y mae grwpiau cymunedol annibynnol yn ei wneud i wella'r amgylchedd lle maent yn byw, neu yn yr ardaloedd maent yn hoff ohonynt, boed hynny'n ymladd am well ansawdd dŵr yn ein hafonydd, brwydro yn erbyn datblygiadau niweidiol, neu alw ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i wneud gwell penderfyniadau dros yr amgylchedd y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn byw ynddo.

I gloi, roeddwn i eisiau dathlu bywydau'r arwyr bywyd gwyllt rydym wedi'u colli yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a diolch iddynt, ac i bob un ohonoch chi, sydd wedi cefnogi'r Ymddiriedolaeth gyda'ch amser, eich arbenigedd, eich eiriolaeth, eich aelodaeth, eich rhoddion, neu eich addewidion gwaddol. Rydych chi'n parhau i wneud ein gwaith yn bosibl, a diolch i'ch cefnogaeth chi mae ein heffaith yn parhau i dyfu.

**Adam Taylor**
**Prif Weithredwr**

PHOTO CREDIT: GARY COX



"Rydyn ni'n adfer byd natur: yn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur ar lefel leol."

Hoffai Ymddiriedolaeth Natur Gwent ddiolch i: Ein Llywydd, Chris Hatch, Llywydd Emeritws, Roger James, Is-lywyddion ac Ymddiriedolwyr, Gwirfoddolwyr, Aelodau, Gwarcheidwaid Bywyd Gwyllt, perchnogion Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, y diweddar Mrs Pat Gorvin am eu holl haelioni, AES Ltd, Ancre Hill Vineyard, Blaenau Gwent County Borough Council, Caerphilly County Borough Council, Campaign Against Levels Motorway (CALM), Eastmans Plc, Frank Sutton Ltd, Friends of the Gwent Levels, Heron House Financial Management, Hopkins Machinery, Idris and Margaret Jones Trust, Mandarin Stone, Marshalls Plc, Monmouthshire County Council, National Lottery Community Fund, National Lottery Heritage Fund, Natural Resources Wales, Newport City Council, Players of the National Lottery, Players of the People's Postcode Lottery, The Makin Family, The Waterloo Foundation, Torfaen County Council, Travel Chapter, Tri-Wall Europe, Vine House Farm, Welsh Government, Wye Valley AONB.

# Adferiad Natur

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund | Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru In Partnership with Welsh Government | Torfaen County Borough Bwrdeistref Sirol Torfaen | UK Government Wales Llywodraeth y DU Cymru

2021-22 oedd blwyddyn gyntaf strwythur thematig newydd Ymddiriedolaeth Natur Gwent, gyda thimau Adfer Natur a Datrysiadau Seiliedig ar Natur wedi'u sefydlu yn lle'r tri thîm tirwedd rhanbarthol. Mae hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio a chryfhau ein gwaith cadwraeth i adfer bywyd gwyllt (Adferiad Natur) ochr yn ochr â hyrwyddo cyfraniad byd natur at iechyd a lles, a mwy o weithredu ar gyfer newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth gyda phobl ledled cymunedau Gwent (Datrysiadau Seiliedig ar Natur).









Dyfarnwyd hwb ariannol y mae ei wir angen i'n Gwarchodfeydd Natur, gyda Chyllid Rhwydwaith Natur o fwy na £550,000 wedi'i sicrhau'n llwyddiannus i dalu am waith cyfalaf hanfodol. Cyflwynodd y Swyddogion Adfer Natur y gwaith hwn yn ystod hydref a gaeaf 2021-22, gan gynnwys adeiladu maes parcio newydd yn Springdale, cilometrau o ffensys yn Fferm Pentwyn, Fferm Springdale, Cors Henllys a Dolydd Branches Fork; offer a chyfarpar newydd, cwlfertau newydd yng Nghomin Bridewell a 100m o lwybr pren wedi'i newid yng Nghors Magwyr.



Cwblhaodd dau berson ifanc gynlluniau hyfforddi glaswelltir a choetir gyda ni, a gyllidwyd drwy Sefydliad Waterloo, a llwyddo i gael swyddi cyflogedig mewn cadwraeth.

Recriwtiwyd pum hyfforddai newydd ym Mlaenau Gwent ym mis Chwefror drwy'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol, gan eu galluogi i gael profiad gwaith gyda thâl ym maes cadwraeth natur gan gefnogi'r Swyddogion Adfer Natur.



Cwblhaodd y Cynllun Partneriaeth Tirwedd Gwastadeddau Byw ei flwyddyn olaf gyda gwaith rheoli cynefinoedd pellach gan gynnwys adfer perllannau, a thrydedd blwyddyn yr arolygon infertebrata a gynhyrchodd gofnodion newydd ar gyfer Cymru, gan danlinellu pwysigrwydd Gwastadeddau Gwent ar gyfer infertebrata saprocsylig.




Mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Swydd Gaerloyw rydym wedi hyfforddi ein staff a'n gwirfoddolwyr i arolygu a monitro'r Bele, gyda phoblogaeth breswyl bellach wedi'i sefydlu yng Ngwent.

PHOTO CREDITS: HEPBURN PHOTOGRAPHY, HAMISH BLAIR, BEN BOYLETT, TOM MALONEY, MARK HAMBLIN/2020VISION, LIZ STOKES, SARAH HARRIS



Gwnaethom ddechrau gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, i ymgysylltu â'r gymuned leol a chwblhau gwaith rheoli cynefin ar safle "The British" ger y Farteg.



# Datrysiadau Seiliedig ar Natur

Cronfa Gymunedol Community Fund

People's Postcode Lottery



Ffurfiwyd ein Tîm Datrysiadau Seiliedig ar Natur, gan gynnwys tri aelod o staff ymgysylltu ieuenctid Sefyll Dros Natur Cymru (S4NW), a Swyddog Iechyd Gwyllt. Gwnaethom ddechrau recriwtio hefyd ar gyfer ein prosiect Natur Drws Nwsaf, gan gynnwys cymunedau amrywiol ym Mhilgwenlli, Casnewydd mewn cadwraeth natur.

Buom yn arwain ar brosiect datblygu mawndiroedd ar gyfer Cymru gyfan wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru – https://www.gwentwildlife.org/blog/natalie-waller/peatland-restoration-project.







Cawsom ein comisiynu hefyd i greu rhai adnoddau pryfed peillio ar gyfer partneriaeth Gwent Fwyaf Gydnerth – https://www.gwentwildlife.org/pollinators, cynnig hyfforddiant i athrawon ar ddysgu yn yr awyr agored, a chyflwyno sesiynau niferus yn canolbwyntio ar yr hinsawdd i bobl ifanc



Ymgysylltodd prosiect Sefyll Dros Natur Cymru â bron i 600 o bobl ifanc 9 i 24 oed, gyda thua 30 yn ymgysylltu am yr eildro gan eu bod yn gyn-aelodau o'n grwpiau ieuenctid neu'n mynychu'r sesiynau Addysg Gartref yn rheolaidd. Mae'r sesiynau wedi amrywio rhwng sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb oherwydd Covid-19, ac eto mae'r bobl ifanc wedi llwyddo o hyd i greu gardd law gymunedol a pherllan, plannu bylbiau a phlanhigion peillio dirifedi, creu bocsys nythu, cartrefi gwenyn a llochesi glöynnod byw a mynd ati i gasglu sbwriel.





Roedd yn bleser gennym glywed yn yr hydref ein bod wedi llwyddo yn ein cais i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am £359,592 dros 4 blynedd, i'n galluogi i recriwtio ail Swyddog Iechyd Gwyllt yn gynnar yn 2022 ac ehangu ein darpariaeth. Yn ystod y flwyddyn cysylltodd y prosiect Iechyd Gwyllt fwy na 150 o bobl â byd natur, gan wella eu lles.




Fe wnaethom helpu i ddatblygu a chymryd rhan mewn cynllun peilot presgripsiynau cymdeithasol llwyddiannus gyda nifer bach o feddygon teulu, drwy Rwydwaith Lles Integredig Caerffili.

PHOTO CREDITS: PETRA MITCHARD, NATALIE WALLER, KATHY BARCLAY, ROB MAGEE

# Ein Cyllid Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2022

## Incwm




- 61% GRANTIAU AC YMDDIRIEDOLAETHAU
- 16% AELODAETH
- 4% RHODDION A CHYMYNRODDION
- 6% INCWM A ENILLWYD
- 1% CODI ARIAN ARALL
- 13% ARALL

**Grantiau ac Ymddiriedolaethau - £877,040** Grantiau gan gyrff statudol, (e.e. Llywodraeth Cymru), ymddiriedolaethau elusennol a sefydliadau

**Aelodaeth - £233,595** Cyfraniadau rheolaidd gan aelodau (pobl a busnesau)

**Rhoddion a Chymynroddion - £55,758** Cyfraniadau, rhoddion mewn ewyllysiau ac er cof a chefnogaeth busnes

**Incwm a Enillwyd - £92,243** Gwerthu gwasanaethau, masnachu, rhent, incwm digwyddiadau a chyrsiau

**Codi arian arall - £7,872** Yn cynnwys raffl flynyddol a gweithgareddau codi arian cymunedol

**Arall - £182,418** Buddsoddiadau a tir rhoddedig

Dosbarthwyd Rhodd Cymorth yn gyfrannol ar draws aelodaeth a rhoddion

## Creu grym lleol i fyd natur

**7,992 o aelodau**

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gwent yn rhan o fudiad lleol, cenedlaethol a byd-eang o ymgyrchwyr dros fywyd gwyllt ac, ynghyd â 45 o Ymddiriedolaethau Natur yn y DU, rydyn ni'n ymdrechu'n barhaus i gynyddu'r gefnogaeth hon drwy godi arian a chyfathrebu ac ymgyrchu.

Ym mis Ebrill 2021, cafodd dychwelyd at ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r cyhoedd ei hybu gan lansiad ein partneriaeth â South West Wildlife Fundraising Ltd (SWWFL). Gan weithio'n agos gyda'r cwmni marchnata aelodaeth sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Natur, ochr yn ochr â naw Ymddiriedolaeth arall, rydym bellach





yn cael ein cefnogi gydag archebion lleoliadau a sioeau, recriwtiwr aelodaeth penodol ac arweinwyr tîm. Mae tîm SWWFL wedi cyrraedd ystod lawer ehangach o bobl i eiriol dros ein hachos.

Yn rhan o ymgyrch Gweithredu dros Bryfed yr Ymddiriedolaeth Natur, canfu ein harolwg gwyddoniaeth y dinesydd Bugs Matter 2021, y cyfrannodd llawer ohonoch chi ato, bod y pryfed sy'n hedfan yng Ngwent wedi dirywio 40% mewn llai nag 20 mlynedd; gan dynnu sylw at duedd sy'n peri pryder a'r angen hollbwysig am ymchwil cadwraeth sy'n canolbwyntio ar bryfed, ledled y wlad.






## Gwariant




- 72% DIOGELU BYWYD GWYLLT AC ENNYN DIDDORDEB POBL
- 10% CYMORTH GWEITHREDOL
- 3% CYNHYRCHU CYLLID
- 7% AELODAETH
- 8% LLYWODRAETHU

**Diogelu bywyd gwyllt ac ennyn diddordeb pobl - £881,035** Cyflawni a chostau uniongyrchol cysylltiedig ein gwaith cadwraeth, addysg, polisi, ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgyrchu

**Cymorth Gweithredol - £120,443** Swyddogaethau cydymffurfio a chymorth gan gynnwys Cyllid, Iechyd a Diogelwch, T.G, Adnoddau Dynol

**Cynhyrchu cyllid - £34,347** Costau staff a swyddfa cysylltiedig â chynhyrchu cyllid ar gyfer ein gwaith

**Aelodaeth - £91,823** Costau recriwtio aelodaeth, cyfathrebu ac ariannol a gweinyddol prosesu rhoddion rheolaidd

**Llywodraethu - £103,939** Archwiliad blynyddol, ffioedd ymgynghori a chyfreithiol a chostau cyfarfodydd y bwrdd llywodraethu

Bydd cyfrifon archwiliedig llawn ar gael ar ein gwefan ni erbyn 1af Medi, 2021 yn gwentwildlife.org/our-funding

## Diolch yn fawr.

Rydym yn hynod ddiolchgar am haelioni llawer o gefnogwyr hirsefydlog a'u teuluoedd, sydd wedi gadael rhoddion i Ymddiriedolaeth Natur Gwent mewn ewyllysiau ac er cof am anwyliaid a gollwyd eleni. Bydd eu hangerdd dros ddiogelu ein bywyd gwyllt rhyfeddol yn parhau i gael effaith ymhell i'r dyfodol.

PHOTO CREDIT: NEIL ALDRIDGE



# Pobl Ymddiriedolaeth Natur Gwent

(Ar 22 Awst 2022)

**Noddwr** - Iolo Williams
**Llywydd** - Chris Hatch
**Llywydd Emeritws** - Roger James
**Is Lywyddion** - Julia James, Stephanie Tyler, Richard Waller

**BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR**
Marc Leppard ((Is-Gadeirydd) (Penodwyd 3 Tachwedd 2021)
Robert Waller (Is Gadeirydd)
Susan Finn (Ysgrifennydd)
John Newton (Trysorydd) (Penodwyd 3 Tachwedd 2021)
Jonathan Stephens
Tom Clancy
David Rees
Rebecca Spooner
Lucy Holland (Penodwyd 3 Tachwedd 2021)

**Gyda diolch arbennig i:** Gwirfoddolwyr Grwpiau Lleol yng Nghas-gwent, Brynbuga a Threfynwy, Gwastadeddwyr Gwent, gwirfoddolwyr y Cymoedd Dwyreiniol, bugeiliaid Pentwyn a Wyeswood a'r llu o unigolion angerddol ac ymroddedig eraill sy'n rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i gefnogi ein gwaith.




# Staff

**Prif Weithredwr** - Adam Taylor

**TÎM ADFER NATUR:**
Mae ein tîm Adfer Natur yn gweithio ar draws ein rhwydwaith o Warchodfeydd Natur a'r dirwedd ehangach i wella gwytnwch cynefinoedd a phoblogaethau o rywogaethau.

**Pennaeth Adfer Natur** - Gemma Bodé
**Rheolwr Tystiolaeth** - Andy Karran
**Swyddog Tystiolaeth** - Lowri Watkins
**Swyddog Cynllunio**- Mike Webb
**Rheolwr Adfer Natur** - Richard Mundy
**Swyddog Cadwraeth Pori** - Joe Ryder
**Swyddog Adfer Natur** - Ben Boylett
**Swyddog Adfer Natur** - Carys Solman
**Swyddog Adfer Natur** - Liz
**Swyddog Adfer Natur Y British** - Sam Ashman

**TÎM DATRYSIADAU SEILIEDIG AR NATUR**
Mae ein tîm Datrysiadau Seiliedig ar Natur yn hyrwyddo'r ffordd y gall natur helpu i ddatrys problemau amgylcheddol a chymdeithasol; gan fynd i'r afael â'r Argyfyngau Ecolegol a Hinsawdd.

**Pennaeth Datrysiadau Seiliedig ar Natur** - Natalie Waller
**Swyddog Iechyd Gwyllt** - Ian Thomas
**Swyddog Iechyd Gwyllt** - Rose O'Hagan
**Uwch Swyddog Ymgysylltu ag Ieuenctid** - Beccy Williams
**Swyddog Ymgysylltu ag Ieuenctid** - Petra Mitchard
**Swyddog Ymgysylltu ag Ieuenctid** - Robert Magee
**Rheolwr Prosiect Datrysiadau Seiliedig ar Natur** - Elizabeth Stokes
**Uwch Drefnydd Cymunedol** - Charlotte Spring

**STAFF CRAIDD A CHEFNOGAETH**
Mae ein tîm craidd yn gweithio o'n pencadlys ger Rhaglan yn Sir Fynwy – gan gefnogi ein timau cyflawni drwy weithredu'r cyfrifon, gweinyddiaeth, cyllid, codi arian, cyfathrebu a swyddogaethau rheoli eraill.

**Pennaeth Cyllid a Gweinyddiaeth** - Leigh Danziger
**Swyddog TG a Diogelwch** - Anthony Cook
**Swyddog Cyllid a Gweinyddu** - Jo Taylor
**Swyddog Adnoddau Dynol a Gwirfoddoli** - Sarah Coleman
**Pennaeth Codi Arian a Chyfathrebu** - Debbie Stenner
**Gweinyddwr Aelodaeth a Marchnata** - Lois Holroyd
**Uwch-swyddog y Wasg a Chyfathrebu** - Sarah Harris
**Swyddog Marchnata** - Hamish Blair
**Uwch Swyddog Prosiectau a Grantiau**- Susie Mowat

**YMDDIRIEDOLAETH NATUR GWENT**
Seddon House, Llanddingad, Trefynwy, NP25 4DY.
Ff: 01600 740600.
Ebost: info@gwentwildlife.org
Gwefan: www.gwentwildlife.org

Rhif elusen: 242619.
Rhif cwmni: 00812535
Swyddfa gofrestredig: Seddon House, Llanddingad, Trefynwy, Sir Fynwy, Deyrnas Unedig NP25 4DY

Dyluniwyd gan Jones Design Create Ltd.